**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **IS–BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD MERCHER, 6 GORFFENNAF 2022 DYDD MERCHER, 6 GORFFENNAF 2022**

**REPORT OF:** **SWYDDOG CYMORTH DEMOCRATAIDD A PHWYLLGORAU**

---

PRESENT: Cynghorydd Lisa Winnett (Cadeiryd)
Cynghoryd S. Behr
G. Humpreys

WITH: Rheolwr Tîm – Safonau Masnachu a Thrwyddedu
Uwch Swyddog Trwyddedu
Swyddog Trwyddedu
Cyfreithiwr

**PENDERFYNIADAU DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynrychiolydd Cyfreithiol yr Ymgeisydd a'r Swyddog Trwyddedu. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant a goddefebau. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 4** | **<u>DEDDF TRWYDDEDU 2003 – TRWYDDED SAFLE NEWYDD – CLWB GWEITHWYR DUKESTOWN, 1 EVANS TERRACE, TREDEGAR NP22 5ER</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytunwyd ar y penderfyniad dilynol:-<br><br>Ystyriodd yr Is-bwyllgor y sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd fel y'u cyflwynwyd yn adroddiad y Swyddog, ynghyd â'r sylwadau llafar a roddwyd yn y gwrandawiad ar ran yr Ymgeisydd a'r unigolion eraill oedd yn bresennol.<br><br>Wrth wneud ei benderfyniad, ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd y darpariaethau perthnasol yn Neddf Trwyddedu 2003 (yn neilltuol Adran 4) a'r canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 y Ddeddf a Pholisi Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'r pedwar amcan trwyddedu.<br><br>Gwnaeth yr is-bwyllgor y penderfyniad dilynol:-<br><br>Cytuno ar drwydded safle newydd gyda'r amodau dilynol:-<br><br>Yr holl weithgareddau trwyddedadwy i ddigwydd rhwng 11am a 11.00pm dydd Llun i ddydd Sul.<br><br><u>Amodau Cysylltiedig</u><br><br>***Atal troseddu ac anrhefn***<br><br>1. Bydd camerâu CCTV yn monitro'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan y sawl sy'n mynychu'r safle (heblaw'r toiledau) yn cynnwys unrhyw ardal allanol i fonitro niferoedd ac atal troseddu ac anrhefn<br>(i) Lle caiff system CCTV ei gosod, ei hymestyn neu ei hadnewyddu, bydd i safon priodol fel y cytunwyd gyda'r Awdurdod Trwyddedu mewn ymgynghoriad gyda'r Heddlu. Lle gosodir system CCTV, dylai fod yn llwyr weithredol erbyn adeg dechrau'r drwydded.<br>(ii) Caiff yr offer CCTV ei gadw mewn cyflwr da a bydd yn recordio yn barhaus pan fo gweithgaredd trwyddedig yn | |

digwydd ac am gyfnod o ddwy awr wedyn;

(iii) Bydd deiliad trwydded y safle yn sicrhau y cedwir lluniau CCTV am gyfnod o 31 diwrnod. Gellir adolygu cyfnod adolygu lluniau fel sy'n briodol gan yr Awdurdod Trwyddedu;

(iv) Caiff yr amser a'r dyddiad cywir eu rhoi ar y recordiad ac ar y sgrîn lluniau amser real;

(v) Os yw'r offer CCTV (yn cynnwys unrhyw unedau symudol a ddefnyddir yn y safle) yn torri, bydd deiliad trwydded y safle yn sicrhau bod goruchwyliwr dynodedig y safle, neu yn ei absenoldeb ef/hi unigolyn arall cyfrifol, yn hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu ar lafar cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Caiff yr wybodaeth hon ei chofnodi ar yr un pryd yn y gofrestr o adroddiadau digwyddiadau a bydd yn cynnwys am faint o'r gloch, y dyddiad a'r ffordd y gwnaethpwyd hyn ac i bwy y cafodd yr wybodaeth ei rhoi. Caiff methiannau offer eu trwsio neu eu hadnewyddu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a heb oedi diangen. Caiff yr Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu eu hysbysu pan unionir gwallau.

(vi) Bydd deiliad trwydded y safle yn sicrhau bod aelodau o staff wedi eu hyfforddi ar gael yn ystod oriau trwyddedadwy i fedru atgynhyrchu a lawrlwytho lluniau CCTV i fformat symudadwy ar gais unrhyw swyddog a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl.

(vii) Bydd arwyddion clir yn nodi fod yr offer CCTV yn cael ei ddefnyddio ac yn recordio yn y safle yn ystod oriau trwyddedadwy.

2. Caiff llyfr digwyddiadau ei gadw a'i gynnal a bydd yn y safle ar bob amser. Caiff ei wneud ar gael ar gais i'r heddlu neu aelod o staff a awdurdodwyd gan y cyngor. Defnyddir y llyfr hwn i gofnodi'r dilynol:-

(a) Pob trosedd a adroddwyd i'r safle;
(b) Mynychwyr a gafodd eu troi allan a'r rheswm/rhesymau pam;
(c) Unrhyw anrhefn ar y safle;
(d) Unrhyw ymweliad gan gynrychiolwyr awdurdod cyfrifol;
(e) Unrhyw fethiant yn y system CCTV (yn cynnwys dyddiadau ac amserau nad oedd yn gweithio);
(f) Unrhyw wrthodiad o werthu alcohol i unrhyw fynychwyr (yn cynnwys eu disgrifiad, manylion yr alcohol a wrthodwyd a'r rheswm pam a manylion unrhyw ddulliau

| | | |
|---|---|---|
| | adnabod y gofynnwyd amdano a/neu a ddangoswyd).<br><br>Cedwir y gofnod hon am o leiaf 12 mis.<br><br>3. Bydd deiliad y drwydded neu DPS yn cynnal asesiad risg o’r angen am oruchwylwyr drws SIA i fod yn bresennol yn y safle. Os yw goruchwylwyr drws yn bresennol yna bydd deiliad trwydded y safle yn sicrhau y caiff y manylion dilynol ar gyfer pob goruchwyliwr drws eu rhoi ar yr un pryd ar y gofrestr a gedwir ar gyfer i diben hwnnw:-<br>(i) Enw llawn;<br>(ii) Rhif tystysgrif SIA a neu rif bathodyn, neu rif cofrestru unrhyw gynlluniau achredu a gydnabyddir gan yr Awdurdod Trwyddedu (yn cynnwys y dyddiad y daw’r cofrestriad neu achrediad hwnnw i ben);<br>(iii) Faint o’r gloch y gwnaethant ddechrau eu dyletswydd;<br>(iv) Faint o’r gloch y gwnaethant orffen eu dyletswydd.<br>Mae’r gofrestr hon i’w chadw ar y safle bob amser a chaiff ei chadw er mwyn galluogi swyddog a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl i ganfod manylion yr holl stiwardiaid drws a ddefnyddiwyd yn y safle yn ystod y cyfnod o ddim llai na 31 diwrnod cyn y cais a bydd yn agored i gael ei archwilio gan swyddogion a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl os gwneir cais.<br><br>4. Caiff y safle ei glirio o gwsmeriaid o fewn 30 munud o amser olaf cyflenwi alcohol ar unrhyw ddiwrnod.<br><br>***Diogelwch y cyhoedd***<br><br>5. Tra bod gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd, caiff y toiledau yn y safle eu gwirio’n rheolaidd am ddefnydd neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon. Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o bob gwiriad yn y safle am 31 diwrnod a bod ar gael i’w archwilio ar unwaith ar gais Heddlu Gwent neu swyddog a awdurdodwyd gan yr awdurdod trwyddedu.<br><br>6. Ni fydd Deiliad y Drwydded/DPS neu berson cyfrifol yn caniatáu i’r maes parcio gael ei ddefnyddio fel gardd gwrw. Bydd staff yn sicrhau y caiff unrhyw boteli/caniau neu wydrau eu tynnu oddi ar unigolion sy’n gadael y safle. | |

7. Caiff hysbysiadau digonol eu dangos mewn lleoliadau priodol i sicrhau y deuir â'r wybodaeth hon i sylw defnyddwyr y safle.

***Atal niwsans cyhoeddus***

8. Rhaid arddangos hysbysiadau clir ar bob pwynt lle mae cwsmeriaid yn gadael yr adeilad gan eu cyfarwyddo i barchu anghenion preswylwyr lleol a gadael y safle a'r ardal yn dawel.

9. Bydd goruchwyliwr y safle, rheolwr neu berson cymwys arall yn rheoli'r ardal ysmygu tu fas/maes parcio pan gaiff ei ddefnyddio, i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn ymddwyn mewn modd swnllyd neu anhrefnus ac nad ydynt yn peri tramgwydd.

10. Ni chaniateid i fynychwyr ddefnyddio ardaloedd allanol y safle trwyddedig rhwng 21.00 o'r gloch a 10.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sul heblaw ar gyfer dibenion cyrraedd, gadael neu ddefnyddio ardal ysmygu a ddynodwyd. Lle mae'r Trwyddedai yn bwriadu dynodi ardal ysmygu, mae'n rhaid cyflwyno cynllun yn dangos ei lleoliad i'r Awdurdod Trwyddedu i'w gymeradwyo gan Adran Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod lleol cyn ei defnyddio.

11. Ni chaniateid i unrhyw un sy'n gadael y safle dro er mwyn ysmygu i fynd ag alcohol gyda hwy.

12. Caiff hysbysiadau ysgrifenedig clir eu dangos ar bob allfan o'r safle yn gofyn i'r cyhoedd a'r staff i barchu anghenion preswylwyr lleol ac i adael y safle a'r ardal yn dawel.

13. Ni ddarperid adloniant wedi ei reoleiddio tu fas.

14. Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth ar uchel seinydd a fyddai'n tarfu'n afresymol ar ddefnyddwyr unrhyw eiddo yn y cyffiniau.

15. Bydd y Trwyddedai yn sicrhau na fydd unrhyw sŵn, arogl neu olau yn tarddu o'r safle trwyddedig neu drosglwyddo dirgryniad drwy strwythur y safle trwyddedig sy'n achosi

niwsans i anheddau yng nghyffiniau'r safle trwyddedig.

16. Ar adegau pan ddarperir adloniant rheoledig a/neu y gwneir darpariaeth ar gyfer cyfleusterau adloniant o fewn y safle trwyddedig mae'n rhaid cadw pob agoriad allanol i'r safle trwyddedig ar gau heblaw ar gyfer dibenion mynd i mewn a gadael y safle.

17. Ni chaiff unrhyw fath o gorn siarad neu uchel seinydd ei leoli yn neu yn agos at unrhyw gyntedd, drws, ffenestr neu agoriad allanol yn y safle trwyddedig.

18. Caiff dyfais cyfyngu sŵn ei gosod, ei ffitio a'i chynnal mewn ffordd fydd yn rheoli pob ffynhonnell o gerddoriaeth neu siarad ar uchel seinydd tu mewn i'r safle i atal niwsans sŵn i adeiladau cyfagos. Caiff y cyfyngydd sŵn ei osod yn dilyn ymgynghoriad gyda Thîm Atal Sŵn y Cyngor a chaiff y cyfyngydd ei leoli allan o olwg y cyhoedd a'i reoli gan staff y safle yn unig.

19. Bydd y Rheolwr neu gynrychiolydd a enwebir yn derbyn ac yn ymateb i gwynion a byddai ganddo/ganddi reolaeth lawn bob amser o'r uchel seinydd.

20. Bydd y Rheolwr neu gynrychiolydd a enwebir yn sicrhau na chafodd unrhyw niwsans ei achosi gan sŵn yn tarddu o'r safle drwy weithredu polisi hunan-blismona a fydd yn cynnwys gwiriadau sain y tu mewn a thu fas.

21. Caiff goleuadau tu fas eu gosod mor bell ag sy'n rhesymol ymarferol er mwyn cyfyngu ar darfu ar anheddau yng nghyffiniau'r safle trwyddedig tra'n cadw lefel ddigonol o oleuadau ar gyfer i gwsmeriaid ac unigolion a gyflogir yn y safle i gyrraedd a gadael yn ddiogel.

22. Heblaw ar gyfer mynd i fewn a gadael, caiff pob drws a ffenestr eu cadw ar gau yn ystod cyfnodau o adloniant yn gysylltiedig gyda thrwydded y safle.

23. Caiff daliedyddion gwastraff addas ar gyfer gwastraff tybaco eu darparu ym mhob ardal ysmygu ddynodedig yn y safle trwyddedig.

24. Ni chaiff gwastraff gwydr o’r safle ei wagu i ddaliedyddion tu fas rhwng 22:30 ac 08:00 o’r gloch.

25. Dylid cyflwyno cynllun rheoli sŵn i adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor o fewn 3 mis o unrhyw drwydded a roddir. Dylai’r cynllun hwn roi manylion sut y bwriadant reoli sŵn o weithgareddau y tu mewn a hefyd tu fas y clwb.

26. Ni chaiff byrddau picnic neu gelfi eraill eu defnyddio yn y maes parcio neu ardal ysmygu ar unrhyw amser. Bydd yr ardal ysmygu yn ardal ‘sefyll yn unig’.

***Diogelu plant rhag niwed***

27. Byddai polisi ‘Her 25’ yn ei le ar gyfer gwirio unigolion yr amheuir eu bod dan oed. Ni chaiff unrhyw alcohol ei gyflenwi i unigolyn sy’n ymddangos i fod dan 25 oed os nad ydynt yn rhoi dull adnabod sy’n profi eu bod yn 18 oed neu hŷn pan gyflenwyd yr alcohol. Yr unig fathau derbyniol o adnabod ar gyfer prawf oedran fydd pasbort, trwydded yrru cerdyn ffoto, cerdyn adnabod cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd/EEA neu ddogfen debyg, neu gerdyn dangos oedran a gymeradwywyd gan y diwydiant gyda hologram PASS..

28. Bydd y DPS a’r holl staff yn gweithredu’r cynllun prawf oedran yn gadarn. Caiff posteri’n datgan y gweithredir cynllun gwirio oedran yn glir yn ardal y bar.

29. Cedwir cofnod o bob gwrthodiad yn y llyfr digwyddiadau yn rhoi’r manylion a’r amser, y nwyddau a wrthodwyd gan y person oedd yn gweini ac enw’r unigolion a geisiodd brynu, os yw’n hysbys. Cofnodir disgrifiad da os na roddwyd enw. Dylai’r ddogfen hon fod ar gael i’w harchwilio ar gais gan swyddog a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu neu Gwnstabl.

30. Caiff unrhyw berson sy’n gweithio ar y safle sy’n debygol o werthu alcohol ei hyfforddi yng nghyswllt gwerthu dan oed, gwerthu i ddirprwy a sut i wrthod gwerthu i gwsmeriaid anodd. Dylid hefyd gynnal hyfforddiant diogelu gyda’r holl staff. Caiff hyfforddiant o’r fath ei ddogfennu’n glir, ei lofnodi

a'i ddyddio gan yr hyfforddydd a'r sawl a hyfforddir. Dylai'r dogfennau hyn fod ar gael i'w harchwilio ar gais gan swyddog a awdurdodir gan y Swyddog Trwyddedu neu Gwnstabl a'u cadw am gyfnod o 12 mis.

31. Dylai plant fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol a chael eu goruchwylio bob amser.

**<u>Hawl Apelio</u>**

Bydd gan bob parti hawl i apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o dderbyn y penderfyniad hwn. Mae gan unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall hawl i ofyn am adolygu'r Drwydded.